



## Gwybodaeth bwysig i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio

Yn gyffredinol, mae ymddieithrio'n golygu nad oes gennych fawr ddim cysylltiad â'ch rhieni ac nad yw hynny'n debygol o newid.

### Sut mae gwybod a wyf yn gymwys fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio?

**Gallech wneud cais am gyllid myfyrwyr fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio:**

- **os nad ydych wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw un o'ch dau riant ers 12 mis neu fwy; neu**
- **os yw eich perthynas â'ch rhieni wedi chwalu yn ystod y 12 mis diwethaf ac nad ydych yn disgwyl i hynny newid yn y dyfodol agos.**

Os ydych wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhieni ac nad yw'n bosibl i chi gymodi, ni ofynnir i chi ddarparu unrhyw rai o fanylion ariannol eich rhieni. Rydym yn gwybod y gallai fod yn amhosibl neu'n anniogel i rai myfyrwyr ofyn i'w rhieni am fanylion eu hincwm. Os yw hynny'n wir amdanoch chi, byddwch yn cael eich asesu fel myfyriwr annibynnol. Mae hynny'n golygu y byddwn, pan fyddwch wedi anfon tystiolaeth atom, yn sicrhau eich bod yn cael y Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mwyaf sydd ar gael.

Gall enghreifftiau cyffredin o ymddieithrio gynnwys sefyllfaoedd lle mae myfyrwyr yn byw gyda'u ffrindiau, yn byw mewn llety â chymorth neu'n byw gydag aelodau eraill o'u teulu, megis eu modrybedd, eu hewythredd, neu'u neiniau a'u teidiau.

Bydd pob cais gan fyfyriwr sydd wedi ymddieithrio'n cael ei adolygu ar sail amgylchiadau unigryw y myfyriwr dan sylw.

A chofiwch, dylech wneud cais am gyllid myfyrwyr cyn gynted ag sy'n bosibl bob amser er mwyn sicrhau bod gennych ryw faint o arian erbyn dechrau eich cwrs.

### Sut mae gwneud cais fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio?

Os oes gennych dystiolaeth yn barod o'r ffaith eich bod wedi ymddieithrio, anfon copi o'r dystiolaeth honno yw'r ffordd gyflymaf fel rheol o ddangos eich bod wedi ymddieithrio (er enghraifft, llythyr gan eich athro/athrawes, eich meddyg, eich gweithiwr cymorth neu'ch awdurdod lleol ac ati, sy'n cadarnhau nad ydych mewn cysylltiad â'ch rhieni).

Fodd bynnag, os nad oes gennych unrhyw dystiolaeth, gallwch lenwi Ffurflen Cadarnhau Ymddieithrio sydd i'w chael yn eich cyfrif ar-lein a lanlwytho'r ffurflen yn ddigidol. Gallwch hefyd ddefnyddio ein cyfleuster chwilio am ffurflen <https://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/ffurflenni/> i lawrlwytho copi ohoni.





## Beth arall y mae angen i fi ei wybod?

Os byddwch yn gymwys fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio, byddwch fel rheol yn cael eich asesu fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio drwy gydol eich cwrs. Fodd bynnag, os yw'r ymddieithrio wedi digwydd yn ddiweddar (fel rheol yn ystod y 12 mis diwethaf) neu os yw'n ymddangos bod modd i chi gymodi â'ch rhieni, mae'n bosibl y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn dal i fod wedi ymddieithrio, pan fyddwch yn gwneud cais am gyllid myfyrwyr yn ystod blynyddoedd diweddarach eich cwrs.

Gall prifysgolion a cholegau hefyd roi cymorth i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, a gallwch siarad â chynghorwyr sydd fel rheol yn rhan o dimau Gwasanaethau Myfyrwyr, Lles Myfyrwyr neu'r Undeb Myfyrwyr yn eich prifysgol neu'ch coleg. Mae cymorth annibynnol ar gael hefyd gan [Stand Alone](#), a gallwch ysgrifennu at dîm arbenigol y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yma: [estranged@slc.co.uk](mailto:estranged@slc.co.uk)

## Dolenni cyswllt pwysig

Stand Alone – <https://www.standalone.org.uk/>

